# Ebr Bob Owen

(1) Nad oedd a wnelo Inigo Jones un dim â Dyffryn Conwy ac nid ef yn bendant oedd cynllunydd na chodwr Pont Llanrwst.

(2) Nad Mary Jones a'i Beibl oedd achos sylfaenu y Feibl Gymdeithas ac nad oedd hi ond un o gannoedd a gerddai yn droednoeth bryd hynny.

(3) Nad Ieuan Gwyllt na Rowland Pritchard o'r Bala oedd cychwynwyr y Gymanfa Ysgolion a Chanu, ond Thomas Charles o'r Bala, a hynny mor fore ag 1807.

(4) Nad yn 1730 y cychwynnwyd Ysgolion Cylchynol Griffith Jones, Llanddowror a Madam Bevan ond yn 1737.

(5) Nad Robert Williams (Robert ap Gwilym Ddu o Eifionydd) oedd awdur yr Awdl Fuddugol yn Eisteddfod Dinbych yn 1793 ar Gyflafan y Beirdd, ond Robert Williams (Robin Ddu o Eifionydd) oedd yn byw yn Llys Batrig, Abererch.

(6) Fod yr Ysgolion bob dydd a holl lyfrau wedi camarwain plant a phobl i gredu mai cnafon diffaith oedd Gwylliaid Cochion Mawddwy – oherwydd iddynt ladd y Barwn Owen – ymladd dros eu hawliau yr oedd rheiny yn erbyn gorthrymwyr.

(7) Fod y Llyfrau Gleision, 1847, am gyflwr addysg Cymru yn mynegi mwy o wir nag a fynnwn gredu, ac am gyflwr moesol ein gwlad. Trysorau amhrisiadwy ydynt yn fy ngolwg i.

(8) Nad yn y Gerddi Bluog y ganed Archddiacon Edmwnd Prys ond yn y Gydros Uchaf, Llanfair, Meirionnydd.

*(Codwyd o Llafar, 1952)*

# Y FFAIR LYFRAU

*(parhad o dud 1)*

**Y Casglwr**, am eu cefnogaeth. Hebddynt hwy ni fyddai'r Ffair yn bosibl.

Mae'r Gymdeithas, drwy'r **Casglwr** wedi codi statws Hen Lyfrau Cymraeg a Chymreig drwy gysoni'r prisiau a rhoi modd i aelodau dros y byd i gyd gael y cyfle i brynu neu i gael pris am gyfrol arbennig. Cofiwch fod y Gymdeithas â Safle We fyd eang dan y teitl **www.geocities.com/casglwr** ac mae nifer o bobl o bob rhan o'r byd yn cysylltu er mwyn cadw mewn cysylltiad â'r farchnad lyfrau yng Nghymru a thu hwnt.


Oherwydd llwyddiant Ffair Lyfrau'r Bala, mae'r swyddogion wedi penderfynu cynnal un arall yn Aberystwyth tua'r Pasg. Fe'ch hysbysir chi o'r union ddyddiad yn rhifyn nesaf **Y Casglwr.**

Hoffwn ddiolch yn gynnes i'r holl aelodau a anfonodd fonion y tocynnau raffl yn ôl dros y misoedd. Mae eu parodrwydd i lenwi'r bwlch ac i gynorthwyo i godi arian yn sicr wedi dwyn ffrwyth. Oherwydd y gefnogaeth, gobeithiwn gyhoeddi tudalennau lliw yn y cylchgrawn yn ystod y flwyddyn nesaf.

## Bob Owen

Taer yw hwn am olrhain tras – un byr, byr
A'i barabl yn eirias;
Ei chwip lem ar weilch y plas,
Hen lew fel John Eleias.

*T. Llew Jones*



*Dafydd Jones yr Hen Bost yn bodio Beibl Richard Parry (1620)*